Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Tre Ficer Llanymddyfri
Y Caban
Victoria Crescent
Llanymddyfri
SA20 8YD

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Tre Ficer wedi'i leoli mewn caban ar dir Ysgol Rhys Prichard yn Llanymddyfri, yn awdurdod lleol Sir Gâr.

Mae'r cylch chwarae wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 18 o blant y sesiwn a derbynnir plant o ddwy flwydd a hanner ymlaen. Ar hyn o bryd, mae 24 o blant ar y gofrestr ac mae tair ar ddeg ohonynt yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu yn y lleoliad, naill ai mewn sesiwn fore neu sesiwn brynhawn.

Saesneg yw prif iaith y cartref i fwyafrif y plant, gyda lleiafrif yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Cymraeg yw prif iaith yr addysg yn y lleoliad. Nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r grŵp ar adeg yr arolygiad.

Mae tri aelod staff amser llawn a dau aelod staff rhan-amser, gan gynnwys arweinydd y cylch chwarae. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gymwys ac â phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc. Mae arweinydd y cylch chwarae wedi bod yn ei swydd er 1985.

Arolygwyd y cylch chwarae ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2014 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2009.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda
- Mae plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg
- Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau cymdeithasol
- Mae ethos cynnes a chroesawgar
- Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod dda o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael ac mae'r adnoddau o ansawdd da

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae arweinydd y lleoliad a'r dirprwy yn ymroi i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd da mewn amgylchedd meithringar
- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm
- Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'u meysydd i'w gwella
- Mae'r lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg cynnar plant
- Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol gydag amrywiaeth o bartneriaid
- Mae'r arweinwyr yn rheoli cyllid yn dda

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ymchwilio, datrys problemau a meddwl plant

A2 Sicrhau bod gwybodaeth asesu ac olrhain yn cael ei defnyddio’n fwy effeithiol i gynllunio ar gyfer bodloni anghenion yr holl blant

A3 Gwella’r ffordd y mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad, yn enwedig yn ystod gweithgareddau grŵp mawr

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae llawer o blant yn cyflawni safonau da yn unol â’u hoedran a’u cam datblygu. Gwnânt gynnydd boddhaol yn yr hyn y gallant ei wneud a dangosant eu bod yn gallu adalw pethau a ddysgont yn flaenorol yn dda; er enghraifft, gwyddant rigymau, fel ‘Mi welais Jac y do’, yn dda.

Mae llawer o blant yn cyfathrebu’n hyderus â’i gilydd yn iaith eu cartref ac yn siarad yn frwd am eu diddordebau, fel disgrifio beth maen nhw’n ei goginio yn y gegin fwd. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn datblygu dealltwriaeth dda o’r Gymraeg. Dilynant gyfarwyddiadau a chwestiynau yn Gymraeg ac ymatebant yn briodol gan ddefnyddio geiriau unigol ac ymadroddion syml. Mae ychydig blant o gartrefi Cymraeg eu hiaith yn siarad yn hyderus yn hirach yn Gymraeg. Mae bron pob un o’r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn eu trafod yn ofalus. Maent yn dal y llyfr yn y ffordd gywir ac yn troi’r tudalennau’n gywir. Siaradant yn frwd am beth allant ei weld yn y lluniau, er enghraifft dangos gwahanol ddinosoriaid. Mae llawer o blant yn adnabod eu henw ysgrifenedig eu hunain yn ystod amser cofrestru. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio amrywiaeth o offer gwneud marciau yn annibynnol, gyda rheolaeth gynyddol; er enghraifft, maent yn tynnu lluniau o ddefaid ar gyfer eu harddangosfa ar y wal. Mae llawer ohonynt yn dangos eu bod yn deall swyddogaeth ysgrifennu, er enghraifft pan fyddant yn cymryd archebion wrth chwarae rôl mewn caffi.

Mae bron pob un o’r plant yn ymuno â chanu caneuon a rhigymau rhif yn briodol ac mae llawer ohonynt yn cyfrif hyd at dri ar ddeg ar y cof yn gywir yn ystod amser cofrestru. Mae llawer o’r plant yn cyfrif hyd at o leiaf wyth yn annibynnol yn Gymraeg. Maent yn adnabod ac yn enwi siapiau’n gywir yn ystod eu chwarae, er enghraifft wrth sylwi ar y tost siâp triongl. Mae llawer o blant yn gallu trefnu gwrthrychau yn ôl lliw a maint. Fodd bynnag, nid yw ychydig blant mwy abl yn datblygu eu medrau rhifedd yn llawn.

Mae medrau corfforol datblygedig gan lawer o blant. Maent yn pedalu beiciau ac yn cydbwyso ar foncyff gyda medrusrwydd cynyddol. Maent yn edafu riliau cotwm yn fedrus ac mae mwyafrif ohonynt yn datblygu rheolaeth dda ar siswrn. Mae ychydig blant yn dechrau datrys problemau, er enghraifft wrth gwblhau jig-sos. Fodd bynnag, nid yw medrau meddwl a datrys problemau plant wedi’u datblygu cystal.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o’r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn setlo’n gyflym ac yn barod, gan ddewis tasgau’n annibynnol. Mae ganddynt berthynas waith dda gydag ymarferwyr ac yn barod i ofyn am help pan fydd ei angen. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn hyderus ac yn frwdfrydig am eu dysgu ac mae llawer ohonynt yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnod gwerth chweil; er enghraifft, maent yn dyfalbarhau i dorri trwy does gan ddefnyddio siswrn.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o blant yn dda at ei gilydd.  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o blant yn gwrando'n dda yn ystod sesiynau grŵp.  Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda â'i gilydd.  Mae llawer o blant yn rhannu ac yn cymryd eu tro'n briodol; er enghraifft, maent yn rhannu tost a sleisiau afal yn ofalus yn ystod amser byrbryd. Mae llawer o blant yn dewis ble maen nhw eisiau chwarae yn hyderus pan gânt y cyfle a defnyddiant adnoddau yn briodol.

Mae bron pob un o'r plant yn deall y dylent olchi eu dwylo cyn bwyta.  Cymerant ran yn frwdfrydig mewn gweithgareddau i'w helpu i gadw'n heini ac maent yn mwynhau byrbrydau iachus.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod ddiddorol o brofiadau dysgu sy'n llwyddo i ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant.  Maent yn seilio'u cynlluniau ar themâu gwerth chweil sydd o ddiddordeb i'r plant, fel 'cludiant' ac 'Arch Noa'.  Mae ymarferwyr yn cynnwys plant yn addas wrth ddewis rhai o'r gweithgareddau; er enghraifft, plant ddewisodd y ffocws ar drenau wrth astudio cludiant.  Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi datblygu ei gynllunio ar gyfer profiadau ar draws pob maes dysgu yn yr ardal awyr agored.  Mae hyn wedi llwyddo i fodloni anghenion bron pob un o'r plant ac ennyn eu diddordeb yn dda.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar plant.  Defnyddiant ganeuon, rhigymau a gweithgareddau wedi'u cynllunio i gyflwyno patrymau a geirfa Gymraeg yn briodol.  Mae ymarferwyr yn darparu llawer o gyfleoedd defnyddiol i blant edrych ar lyfrau a chylchgronau yn ystod eu chwarae rhydd a nodant lyfrau addas i gyd-fynd â themâu.  Mae llawer o gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar, fel cymryd archebion yn y caffi a thynnu lluniau yn yr ardal gwneud marciau.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfoeth o gyfleoedd dan do ac yn yr awyr agored i blant gyfrif ac adnabod rhifau.  Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn llwyddo i gynllunio gweithgareddau sy'n briodol i gam datblygu plant unigol. O ganlyniad, mae ychydig o blant weithiau'n colli diddordeb mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion.

Mae ymarferwyr yn hybu datblygiad corfforol plant yn dda, gan wneud defnydd da o'r ardal awyr agored a'r iard ysgol gyfagos.  Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl, datrys problemau ac ymchwilio plant wedi'u datblygu cystal.

Caiff plant gyfleoedd buddiol i ddysgu am eu treftadaeth leol wrth iddynt gymryd rhan yng Ngŵyl Ddefaid Llanymddyfri a dathlu Dydd Gŵyl Dewi.  Dysgant am ddathliadau mewn diwylliannau eraill yn briodol, fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Addysgu:  Digonol**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o arfer y Cyfnod Sylfaen.  Er enghraifft, deallant bwysigrwydd darparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae a chysylltiad gweithgar.  Cynigiant amgylchedd dysgu diddorol ac ysgogol dan do a thu allan i helpu plant i wneud cynnydd.

Mae holl ymarferwyr y lleoliad yn fodelau iaith da, gan annog a chefnogi'r plant wrth iddynt ddatblygu eu medrau iaith a chyfathrebu. Fodd bynnag, maent yn llai medrus wrth ddefnyddio cwestiynau'n briodol i hybu dysgu plant. Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant unigol yn dda gan amlaf, ac yn defnyddio canmoliaeth ac anogaeth i helpu plant i rannu a chymryd eu tro. Fodd bynnag, nid oes ganddynt ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer ymddygiad plant yn ystod gweithgareddau grŵp, fel cofrestru, amser stori ac amserau tacluso. O ganlyniad, nid yw ymglymiad lleiafrif o blant yn dda yn ystod y gweithgareddau hyn.

Mae ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau i fesur cynnydd plant mewn sawl ffordd wahanol. Hefyd, maent wedi dechrau nodi targedau unigol yn ddiweddar i sicrhau bod yr holl blant yn gwneud cynnydd. Er bod y systemau hyn yn cael rhywfaint o effaith, mae gormod o wahanol ddogfennau'n cael eu defnyddio ar yr un pryd. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn gweithio'n effeithlon i olrhain cynnydd plant, nodi beth mae angen i'r plant ei wneud nesaf a bwydo hyn i'w cynllunio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hybu byw'n iach yn effeithiol. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd buddiol i ddysgu am gadw'n iach, trwy fwyta'n dda a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Er enghraifft, mae plant yn dysgu cadw'n heini trwy ymuno â sesiwn reolaidd o gerddoriaeth a symud.

Mae'r lleoliad yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn sicrhau bod amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol, lle caiff y plant eu hannog i rannu ffrwythau a thost gyda'i gilydd. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu bod yn annibynnol a chymryd cyfrifoldeb. Er enghraifft, anogant y plant i roi gwastraff bwyd yn y bin a phlatiau mewn powlen ar ddiwedd amser byrbryd. Mae plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod a syfrdan trwy dyfu llysiau a bwydo adar yn yr ardal awyr agored. Mae'r lleoliad yn datblygu dealltwriaeth plant o ddatblygu cynaliadwy yn briodol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae systemau addas ar waith i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac mae'r lleoliad yn cael cymorth ychwanegol gan asiantaethau arbenigol fel bo'r angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol gan y lleoliad. Mae ymarferwyr yn dangos gofal a phryder tuag at yr holl blant ac yn sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n gyfartal ar weithgareddau. Defnyddiant ganmoliaeth i annog plant i ddatblygu agweddau goddefgar a dysgu cydweithredu â'i gilydd wrth iddynt chwarae. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r amgylchedd dan do yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n olau a chroesawgar ac mae'r lleoliad yn defnyddio'r lle sydd ar gael yn dda. Mae'r lleoliad yn cynnig amrywiaeth dda o adnoddau diddorol a phriodol i'r plant eu defnyddio, sy'n drefnus ac yn hygyrch. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gosod

pob maes dysgu yn gyson.  O ganlyniad, nid yw plant bob amser yn cael y cyfle i adeiladu ar ddysgu blaenorol yn briodol.  Yn ddiweddar, mae'r lleoliad wedi ymestyn ei ddefnydd ar yr amgylchedd dysgu awyr agored, sy'n ddeniadol ac yn ysgogol.  Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau esgus coginio yn y gegin fwd ar gyfer chwarae rôl.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o gyfleusterau awyr agored yr ysgol gyfagos i ehangu datblygiad corfforol plant.  Mae'n gwneud defnydd priodol o'r amgylchedd lleol i ymestyn dysgu plant.  Er enghraifft, mae plant yn dysgu am deithio ar y trên pan fyddant yn ymweld â'r orsaf.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae arweinydd a dirprwy'r lleoliad yn ymroi i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o ansawdd da mewn amgylchedd meithringar.  Maent yn cydweithio'n llwyddiannus i greu ethos cadarnhaol a chynnwys yr holl staff yn hyn yn effeithiol.  Mae'r lleoliad wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol iawn gyda rhieni a gofalwyr, sy'n gwerthfawrogi'r lleoliad yn fawr.  Mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel ac yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda.  O ganlyniad, mae ymarferwyr a phlant yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae'r arweinydd yn cynnwys yr holl ymarferwyr mewn cynllunio ac asesu ac yn parchu eu cyfraniadau.  Mae'r rhan fwyaf o sesiynau'n mynd yn eu blaen yn hwylus.  Fodd bynnag, ar adegau, nid yw arweinwyr yn rheoli rhai agweddau ar y drefn yn ddigon da i gyflawni'r deilliannau gorau i'r plant.

Mae'r arweinydd a'r dirprwy yn rhannu'r cyfrifoldeb rheoli gyda'r pwyllgor yn llwyddiannus.  Maent yn cyfathrebu'n briodol â'r person cofrestredig gan sicrhau bod y cylch chwarae'n gweithredu'n effeithiol.  Mae system werthuso ddefnyddiol yn galluogi ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor i fyfyrio ar eu perfformiad a chynllunio hyfforddiant a chymorth priodol.

Mae'r lleoliad wedi rhoi blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith yn briodol.  Er enghraifft, mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar plant yn dda, ac mae'r arweinydd yn sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd da i ddysgu am fyw'n iach.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r arweinwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae ganddynt ymrwymiad cadarn i wella'n gyson.  Gwnânt ddefnydd da o broses hunanarfarnu newydd i'w helpu i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.  Maent wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn llwyddiannus i lunio cynllun gwella defnyddiol sy'n cynnwys targedau priodol a chyfleoedd i arfarnu cynnydd.  Mae ymarferwyr yn gwneud cynnydd addas tuag at gyflawni'r targedau, fel defnyddio gwybodaeth o hyfforddiant diweddar i wella medrau Cymraeg ymarferwyr.

Mae arweinwyr yn gweithio'n dda gydag asiantaethau eraill. Maent yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio. Er enghraifft, maent wedi mabwysiadu fformat cynllunio newydd yn ddiweddar mewn ymgynghoriad ag athro cyswllt yr awdurdod lleol. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n gryfach ar ddatblygu medrau plant ac yn gallu nodi targedau gwella unigol. Maent wedi defnyddio cyfleoedd i ymweld â lleoliadau cyfagos i wella'u dealltwriaeth o ddysgu yn yr awyr agored. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd gwell i blant ddatblygu ar draws pob maes dysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr wedi rhannu eu harfer dda a'u profiad helaeth o redeg cylch chwarae yn llwyddiannus gyda lleoliadau eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad bartneriaethau sefydledig, cryf iawn gyda rhieni, gofalwyr a'r ysgol leol. Mae wedi sefydlu cysylltiadau buddiol gyda'r gymuned hefyd. Er enghraifft, mae'n cyfrannu at godi arian i achosion lleol ac yn cefnogi digwyddiadau lleol. O ganlyniad, mae'r cylch chwarae'n cael ei werthfawrogi a'i barchu yn y fro.

Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n dda am weithgareddau a chynnydd eu plant trwy gyswllt anffurfiol dyddiol a hysbysfwrdd y lleoliad. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r lefel dda o gyfathrebu a'r berthynas gadarnhaol sydd ganddynt â'r ymarferwyr. Mae hyn yn helpu'r plant i ymgartrefu'n dda yn y lleoliad.

Mae'r cylch chwarae'n defnyddio'i leoliad wrth ymyl yr ysgol yn dda i ymestyn profiadau dysgu plant ac i'w paratoi'n effeithiol ar gyfer symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg. Er enghraifft, daw plant yn gyfarwydd ag adeilad yr ysgol trwy ddefnyddio iard yr ysgol a'r ardal awyr agored yn rheolaidd.

Mae'r bartneriaeth adeiladol ag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog datblygu Mudiad Meithrin yn cynorthwyo â'r cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus yn y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn rheoli a defnyddio adnoddau'n dda. Mae arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff â chymwysterau addas gan y lleoliad. Dosbarthant staff yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd, a rhoddant gyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr newydd ddatblygu eu hyder. Mae ymarferwyr yn manteisio ar ystod addas o hyfforddiant defnyddiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda yn y lleoliad. Maent yn mynychu digwyddiadau rhwydweithio sy'n eu helpu'n effeithiol i weithredu strategaethau fel y fformat cynllunio newydd.

Mae arweinwyr a'r pwyllgor rheoli yn rheoli'r gyllideb yn dda. Maent yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyllid ychwanegol ac yn blaenoriaethu gwariant yn effeithlon yn ôl anghenion y lleoliad. Er enghraifft, defnyddiont gyllid diweddar yn dda i wella adeiladwaith yr adeilad.

Yng ngoleuni'r deilliannau cadarnhaol a gyflawnir gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Genedlaethol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Partneriaeth Datblygu'r** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo |

| | |
|---|---|
| **Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |